Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

MEDDIANNU AMGUEDDFEYDD
TAKING OVER MUSEUMS

Astudiaeth Achos CASE STUDY 4

Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru
Big Pit: National Coal Museum

WHY TAKE PART ?

The museum is celebrating its 30th anniversary and wanted to use the opportunity to work more closely with the local community. Taking Over Museums Day and the work that followed was a chance to try out working with local school children in a completely different way.

PAM CYMRYD RHAN?

Mae'r amgueddfa'n dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed, ac roedd am fanteisio ar y cyfle i gydweithio'n agosach â'r gymuned leol. Roedd Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd a'r gwaith a ddilynodd yn gyfle i geisio gweithio gyda phlant ysgol lleol mewn ffordd cwbl wahanol.

WHO TOOK PART ?

99 children aged seven to ten from a local primary school. The Learning Officer contacted the Headteacher directly as she was known from previous experience to be very positive about heritage learning. The Headteacher was so keen on the idea that she wanted all three classes of pupils to be involved.

PWY GYMERODD RAN?

Bu 99 o blant rhwng saith a deg mlwydd oed o ysgol gynradd leol yn cymryd rhan. Cysylltodd y Swyddog Dysgu â'r Pennaeth yn uniongyrchol gan ei bod yn gwybod o brofiad blaenorol ei bod yn bositif iawn ynghylch dysgu am dreftadaeth. Roedd y Pennaeth mor awyddus, roedd am i'r tri dosbarth o blant gymryd rhan.

WHAT DID THEY DO ?

The children were responsible for creating their own collections, taking inspiration from the artefacts in the museum and the way they were presented.

BETH WNAETHON NHW?

Roedd y plant yn gyfrifol am greu eu casgliadau eu hunain, gan gael eu hysbrydoli gan greiriau'r amgueddfa a'r dull o'u cyflwyno.

HOW DID THEY SPEND THEIR TIME ON THE DAY?

Taking the idea from the book 'How to be an Explorer of the World' by Keri Smith, the Learning Officer introduced all the children to the concept of collecting, how museums collect objects and why.

They then split into smaller groups of 10-20 pupils and spent time in the galleries choosing items to use in their collection. A member of museum staff accompanied each group to facilitate conversations and help the children notice things. The pupils were given a range of

SUT WNAETHON NHW DREULIO'U HAMSER AR Y DIWRNOD?

Gan gymryd y syniad o'r llyfr 'How to be an Explorer of the World' gan Keri Smith, cyflwynodd y Swyddog Dysgu'r plant i'r cysyniad o gasglu, sut y mae amgueddfeydd yn casglu gwrthrychau, a pham.

Yna rhannodd y plant yn grwpiau llai o 10-20 o ddisgyblion, gan dreulio amser yn yr orielau a dewis eitemau i ddefnyddio yn eu casgliad. Roedd aelod o staff yr amgueddfa gyda phob grŵp i hwyluso'r sgyrsiau ac i helpu'r plant i sylwi ar bethau. Cafodd y disgyblion

materials and media to explore and document with:

- Cameras to take pictures of objects that interested them
- Pencils and sketch pads to record information about objects from labels or make drawings
- Clay to make models of objects and take impressions of interesting textures such as cogs, wheels and brick work

Finally the groups presented their collections in a show and tell session, explaining why particular items had caught their attention and how they linked together to tell a story.

amrywiol ddeunyddiau a chyfryngau i edrych arnynt ac roeddent yn dogfennu trwy ddefnyddio:

- Camerâu i gymryd lluniau o wrthrychau oedd o ddiddordeb iddynt
- Pensil a phapur i gofnodi gwybodaeth am wrthrychau o labeli neu wneud lluniau
- Clai i wneud modelau o wrthrych ac i gymryd argraffiad o ddeunyddiau diddorol fel cogiau, olwynion a gwaith bric

Yn olaf cyflwynodd y grwpiau eu casgliadau mewn sesiwn dangos a dweud, gan egluro pam oedd eitemau penodol wedi dal eu sylw a sut roeddent yn cysylltu â'i gilydd i ddweud stori.

WHAT HAPPENED NEXT?

Taking Over Museums Day was the first step in the school and museum's involvement. Pupils were invited to co-curate an exhibition celebrating the 30th anniversary of the museum which will open in late 2013. The exhibition will be hosted by the museum and later by the school. Since Taking Over Museums Day, the pupils have sorted themselves into different teams with distinct responsibilities e.g. interpretation, curating, marketing as well as a team to make a digital record of the project. Museum staff regularly visit the school to meet with the teams and further on-site days are planned.

Although the museum can accommodate large groups of children on structured education visits, this event required a different approach and it was essential to involve staff from outside the learning department, from conservation engineers to underground tour guides. The outcome is that all the staff are now very positive and committed to the extended project, giving the children a rich insight into the different roles and functions of the museum.

BETH DDIGWYDDODD NESAF?

Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd oedd y cam cyntaf yng nghyfraniad yr ysgol at waith yr amgueddfa. Cafodd y disgyblion eu gwahodd i guradu arddangosfa ar y cyd i ddathlu pen-blwydd yr amgueddfa yn 30 oed, fydd yn agor ar ddiwedd 2013. Yr amgueddfa, ac yna'r ysgol, fydd yn cynnal yr arddangosfa. Ers Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd, mae'r disgyblion wedi trefnu eu hunain i wahanol dimau gyda chyfrifoldeb penodol e.e. dehongli, curadu, marchnata, yn ogystal â thîm i wneud cofnod digidol o'r prosiect. Mae staff yr amgueddfa yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gyfarfod y timau ac mae rhagor o ddyddiau wedi'u trefnu ar y safle.

Er ei bod yn bosib i'r amgueddfa dderbyn grwpiau mawr o blant ar ymweliadau addysgol strwythuredig, roedd y digwyddiad hwn yn galw am ddull gwahanol o weithio, ac roedd yn hanfodol i gynnwys staff o'r tu allan i'r adran ddysgu, o beirianwyr cadwraeth i dywysyddion tanddaearol. Y canlyniad yw bod y staff bellach yn teimlo'n bositif iawn ac wedi ymrwymo i'r prosiect estynedig, gan roi cipolwg gwerthfawr i'r plant o wahanol swyddogaethau'r amgueddfa.